



CERDDED YN ÔL TROED TYWYSGION

Os gofynnwch i Gymro beth sy'n ei wneud ef neu hi'n Gymro neu'n Gymraes, cewch lawer o atebion, pob un yn adlewyrchu cymysgedd gwahanol o ddaearyddiaeth, hanes, diwylliant ac iaith. Mae'r cymysgedd hwn yn cyfuno i greu hunaniaeth genedlaethol Gymreig oesol. Does dim angen edrych ymhellach na'r Eisteddfod Genedlaethol neu'r dyrfa sy'n bloeddio cymeradwyaeth i dîm rygbi Cymru i weld y balchder angerddol mewn Cymreictod byw, parhaus. Yn y Gogledd dylanwadwyd yn gryf ar yr ymdeimlad hwn o hunaniaeth a balchder cenedlaethol gan dywysogion Gwynedd. Nhw oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i brosiect dehongli mawr newydd, fel yr eglura **Sarah McCarthy**.

Mae tywysogion Gwynedd yn cynrychioli cyfnod pan oedd Cymru'n annibynnol; yn wlad â'i theulu brenhinol, ei deddfau a'i bywyd llys ei hun. Nid rhyw le marwaidd oedd Cymru'r Oesoedd Canol – roedd tywysogion Gwynedd yn cymysgu â theuluoedd brenhinol eraill Ewrop – gan gynghreirio â brenin Ffrainc, Philip Augustus II, yn ogystal â'r Babaeth. Roedd gan y tywysogion ddylanwad gwleidyddol sylweddol hefyd ym Mhrydain, er enghraifft, drwy gynghreirio â'r barwniaid Seisnig yng ngwrthryfel 1214, enillodd Llywelyn Fawr gonsesiynau o bwys i Gymru yn y Magna Carta.

Mae dylanwad y tywysogion yn para hyd heddiw, 700 mlynedd ar ôl eu teyrnasiad, a nod prosiect Tywysogion Gwynedd yw gwneud yr hanes hwn yn fwy real a hygyrch. Mae'n un o Brosiectau Twristiaeth Treftadaeth £19m Cadw, yn cael ei noddî'n rhannol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ac mae'r prosiect yn gonsortiw m sy'n cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae wedi darparu chwe phorth arddangos (pedwar gydag elfennau amlgyfrwng), gwefan bwrpasol gyda mapiau a theithiau i'w lawrlwytho, arweinlyfr, cerddoriaeth a barddoniaeth ganoloesol sydd wedi'u comisiynu'n arbennig, dwy ffilm, arwyddion a phum prosiect cymunedol.



Castell
Dolwyddelan
Dolwyddelan
Castle
© Tywysogion
Gwynedd/Princes of
Gwynedd/Kiran Ridley



Prif ffocws y gweithgarwch fu creu cyfres o arddangosfeydd bach am dywysogion Gwynedd. Yn ystod 800 mlynedd eu llinach gwelwyd tywallt gwaed ond hefyd gwelwyd ffyniant diwylliannol a chymdeithasol a dylanwad gwleidyddol. Wrth ddatblygu'r arddangosfeydd hyn fe wnaethom ddilyn cyngor Cadw a chreu cyfres o byrth neu fannau ymweld. Mae'r pyrth yn cyflwyno ymwelwyr i'r thema ac yn eu hysbrydoli i 'ddilyn y stori' allan i'r dirwedd drwy rwydwaith o safleoedd sydd wedi'u dynodi ag arwyddion. O blith 150 o safleoedd a oedd â chysylltiad â'r tywysogion, dewiswyd 30, oherwydd eu hygyrchedd corfforol, eu gwasgariad daaryddol a pha mor gynrychiadol oeddent o'r thema.

Roeddem yn pryderu am y ffordd y mae'r tywysogion wedi cael eu dehongli'n draddodiadol a'r argraffiadau poblogaidd ohonynt, sy'n eu darlunio fel pobl ryfelgar a oedd yn ymladd y Saeson yn barhaus. Gallem fod wedi gwneud y dewisiadau hawdd a chanol-bwyntio'n llwyr ar safleoedd dramatig fel Castell Dolwyddelan, sy'n edrych i lawr ar Ddyffryn Lledr, neu Ddolbadarn, yng nghysgod yr Wyddfa, lle cadwodd tywysog olaf Gwynedd, Llywelyn ap Gruffudd, ei frawd Owain yn gaeth am 22 flynedd, neu Grietieth, ar arfordir gogleddol Bae Ceredigion. Mae'r rhain, cestyll y tywysogion, yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i dynnu lluniau trawiadol ac maent yn sicr yn amlygu grym a statws. Perffaith!

Fodd bynnag, roedden ni am ddangos 'ochr arall' y tywysogion – sut roedden nhw'n byw yn hytrach na sut roedden nhw'n marw. Teimlem fod hon yn etifeddiaeth y gallai pobl Cymru fod yr un mor falch ohoni ac y dylai ymwelwyr hefyd allu ei harchwilio.

Yn nheyrnas hynafol Gwynedd y mae'r iaith Gymraeg ar ei chryfaf heddiw. Roeddem am ddangos barddoniaeth wych ac iaith llys gyfoethog y tywysogion a thynnu sylw at eu cyfundrefn gyfreithiol, a oedd yn radical yn ei hoes. Er enghraifft, roedd un ddeddf yn caniatáu i fenyw hawlio hanner cyd eiddo cwpl pe bai'n gwahanu oddi wrth ei gŵr ar ôl saith mlynedd o briodas. Roedd hynny'n cynnwys plant a hyd yn oed gathod anwes. Mae llawer o'r safleoedd sy'n cynrychioli'r ochr 'arall' hon, fel y llys yn Abergwyngregyn, yn ymddangos yn llawer llai rhwysgfawr na'r cestyll. Ond, yn nechrau'r 13eg ganrif, y llys hwn oedd un o hoff breswlyfeydd Llywelyn Fawr, yr oedd ei wraig, Siwan, yn ferch i'r Brenin John o Loegr. O dan deyrnasiad y tywysogion hefyd gwelwyd pensaernïaeth eglwysig yn ffynnu, a gwelir hyn ym Mhriordy Penmon ar Ynys Môn ac yn Abaty Cymer ger Dolgellau. Y ffyniant yr oedden nhw a'u deiliaid yn ei fwynhau a grëodd dirlun economaidd Gogledd Cymru, fel y'i disgrifiwyd yn *Historia Gruffudd ap Cynan*, a oedd yn rheoli Gwynedd ar ddechrau'r 12fed ganrif:

"O hynny ymlaen, daeth pethau da o bob math yn fwy cyffredin yng Ngwynedd, a dechreuodd y dinasyddion godi eglwysi ym mhob rhanbarth o'r deyrnas, a hau a phlannu coed, creu perllannau a gerddi, a'u hamgylchynu â ffensys a ffosydd, a chodi adeiladau, a bwyta ffrwythau'r ddaear fel ag a wnâ'r Rhufeiniaid. Cododd Gruffudd hefyd eglwysi mawr iddo'i hun yn y prif lysoedd, ac adeiladodd a chynhaliodd ei lysoedd gyda gwleddoedd yn gyson ac yn anrhydeddus."



Bethan Gwanas yn cyflwyno'r ffilm Tywysogion Gwynedd wrth lansio'r prosiect, Craflwyn, Beddgelert.

Bethan Gwanas introduces the Princes of Gwynedd film at the project launch, Craflwyn, Beddgelert.

© Tywysogion Gwynedd/
Princes of Gwynedd

Arddangosfa fach Tywysogion Gwynedd yng Nghanolfan Croeso Canolfan Hebog ym Meddgelert.

The Princes of Gwynedd mini exhibition at Canolfan Hebog Tourist Information Centre in Beddgelert.

© Sarah McCarthy





Rhodddwyd cryn bwyslais ar wneud yn siŵr fod y dehongli yn gynhwysfawr ac wedi'i seilio ar wybodaeth gywir. Cafodd y tîm prosiect, oedd â phrofiad helaeth mewn twristiaeth, archeoleg, amgueddfeydd a dehongli, gymorth a chynghor gan dîm bach o arbenigwyr. Roedd y cyfyngiadau geiriau ar baneli, a'r gydnabyddiaeth fod y darpar gynulleidfaoedd yn hynod o amrywiol eu diddordebau a'u hanghenion, yn peri rhwystredigaeth iddynt ar adegau yn eu brwdfrydedd gwybodus, ynghyd â'r ffaith na fyddai'r rhan fwyaf o ymwelwyr â'r pyrth arddangos – mewn Canolfannau Croeso yn bennaf – yn bobl o Gymru: byddai hanes Cymru a'r Gymraeg yn ddieithr iawn iddynt.

Un o'r sialensiau mwyaf fu taro'r cywair iawn wrth gyfleu stori gyfareddol a chymhleth y tywysogion heb orlethu ymwelwyr â gormodedd o ddyddiadau a digwyddiadau yn gysylltiedig, i lawer o ymwelwyr, ag enwau na allant eu hynganu. Gobeithiwn ein bod wedi sicrhau cydbwysedd braf. Gall hyd yn oed gwestiynau syml fel "a ddylai 'tywysogion Gwynedd' gael ei sillafu â 't' fach ynteu brif lythyren?" achosi trafodaeth hirfaith weithiau. Cawsom ein hunain yn pwysu a mesur gwahanol ffyrdd o ymdrin â darlunio archeolegol, a buom hyd yn oed yn trafod statws plant anghyfreithlon yn yr Oesoedd Canmol ac a oedd yn bwysig fod gwraig Llywelyn Fawr, Siwan, yn ferch anghyfreithlon i'r Brenin John. Wrth edrych yn ôl mae rhai pethau y byddem yn eu gwneud yn wahanol: byddem yn cynhyrchu'r cynnwys yn ganolog ym mhob elfen, a byddem yn cyflogi ysgrifennwr copi a golygydd copi i gynhyrchu a goruchwyllo'r holl ddehongli.

Rydym yn arbennig o falch o'r teithiau a ddyfeisiwyd, sydd yn yr arweinyfr yn ogystal â bod ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan. Yn amrywio o deithiau cerdded syml i her feicio dros sawl diwrnod, 'Taith Llywelyn Fawr', maen nhw hefyd yn cynnwys taith dridiau werdd a chrand ar y rheilffordd, gan ymweld â naw safle allweddol sy'n gysylltiedig â'r tywysogion ar draws Gogledd Cymru. Mae ein prif borth yng Nghonwy yn cyflwyno'r cyd-destun yn wych ac, fel y porth cyntaf i gael ei gwblhau, mae'n gosod y tôn a'r arddull ar gyfer holl gynnyrch dehongli arall y prosiect. Llwyddiant arall yw'r gwelliant mawr o ran mynediad i Ddinas Emrys – byddai



Yr olygfa o'r môr o Abergwyngregyn, safle'r llys brenhinol neu Lys Llywelyn Fawr.

The view out to sea from Abergwyngregyn, site of the royal court or llys of Llywelyn the Great.

© Tywysogion Gwynedd/Princes of Gwynedd/ Sarah McCarthy

Model o Lywelyn Fawr, Eglwys y Santes Fair, Trefriw.

Mannequin of Llywelyn the Great, St Mary's Church, Trefriw.

© Tywysogion Gwynedd/Princes of Gwynedd

rhai'n dweud mai hwn yw'r safle mwyaf cyfareddol a rhyfeddol sy'n gysylltiedig â thywysogion Gwynedd. Ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Craflwyn, mae tunelli o gerrig wedi cael eu saernio'n llwybrau hardd ar hyd y rhwydwaith o ffyrdd sy'n arwain i Ddinas Emrys. Ac, ym mhorth Beddgelert gerllaw, bydd y wybodaeth yn y ciosg sgrin gyffwrdd 'Lightbox' ar gael nid yn unig yn Gymraeg a Saesneg ond hefyd mewn Iseldireg, Almaeneg a Ffrangeg.

Ond efallai mai gwaddol pwysig prosiect Tywysogion Gwynedd yw ei fod yn codi proffil un o'r cyfnodau pwysig yn hanes Cymru yn sylweddol. Drwy ddolenni 'dilyn y stori', teithiau sydd wedi'u cynllunio'n hwylus, lluniau a disgrifiadau sy'n dod â'r cyfnod yn fyw yn ogystal â gwell mynediad, mae'r prosiect wedi creu gwahoddiad real a hynod ddeniadol i ymwelwyr – i fentro allan i dirwedd Gogledd Cymru a cherdded yn ôl traed tywysogion.

I gael wybodaeth rhagor ewch i: www.snowdoniaheritage.info

Mae Dr Sarah McCarthy yn ymgynghorydd treftadaeth a rheolwr prosiect llawrydd sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru.

Mae'r consortiwm a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi sicrhau rhagor o arian ar gyfer prosiect 'Ein Treftadaeth / Our Heritage' dan arweiniad Cynghor Gwynedd a fydd yn adeiladu ar lwyddiant prosiect Tywysogion Gwynedd.